Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2023

**Rhagfyr 2023**

**llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48917, ISBN digidol 978-1-83577-149-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cynnwys

Rhagair.................................................................................................... 3

Cefndir...................................................................................................... 4

Cyfraddau treth Cymru ............................................................................. 6

Cefndir ................................................................................................... 6

Cyfraddau Treth Incwm Cymru ............................................................... 6

Ffigur un: Cyfraddau Treth Incwm Arfaethedig yng Nghymru, 2024-25 ............. 7

Treth Trafodiadau Tir .............................................................................. 8

Tabl un: Prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 10 Hydref 2022) ...... 8

Tabl dau: Cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020) ........................................................................................................ 8

Tabl tri: Prif gyfraddau amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020) 9

Tabl pedwar: Cyfraddau rhent lesoedd amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020) ............................................................................ 9

Treth Gwarediadau Tirlenwi.................................................................... 10

Tabl pump: Cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (cyfradd fesul tunnell) .... 10

A. Cyflawni amcanion strategol y llywodraeth gan gynnwys ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.................................................................................... 11

1. Datblygu cyfraddau treth incwm Cymru ............................................ 11

2. Diwygio cyllid llywodraeth leol............................................................ 13

3. Datblygu ardoll ymwelwyr .................................................................. 17

4. Datblygu'r achos dros ddatganoli treth mewn ffordd glir a sefydlog ........... 19

5. Ystyried yr achos dros ddatblygu trethi amgylcheddol newydd i Gymru, gan weithio gyda Llywodraeth y DU lle y bo'n briodol ....................................... 20

B. Y gwaith parhaus o adolygu polisïau a'u rhoi ar waith mewn perthynas â'n trethi presennol a meysydd polisi cysylltiedig eraill ........ 22

6. Datblygu polisi treth trafodiadau tir ........ 22

7. Datblygu polisi treth gwarediadau tirlenwi ........ 24

8. Adolygu treth trafodiadau tir ........ 26

9. Adolygu treth gwarediadau tirlenwi ........ 27

10. Datblygu'r sylfaen drethu Gymreig ........ 30

11. Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ........ 34

C. Ffocws parhaus ar weithio gyda phartneriaid a dinasyddion er mwyn i'n dull Cymreig o ymdrin â threthi ymwreiddio, a chodi ymwybyddiaeth o drethi Cymru ........ 36

12. Rheoli trethi Cymru ar y cyd â'n partneriaid o fewn cyd-destun ehangach y DU ac yn rhyngwladol ........ 36

13. Cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o drethi yng Nghymru drwy weithgareddau ymgysylltu ehangach ........ 37

Atodiad 1: Talfyriadau ........ 41

Atodiad 2: Manylion cyswllt ........ 42

## Rhagair

Dyma'r ail adroddiad ar Gynllun Gwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-26 ac mae'n cyflawni fy ymrwymiad i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran datblygu ein blaenoriaethau o ran polisi trethi.

Mae'r Adroddiad yn amlinellu'r datblygiadau allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unol â'n dull tryloyw o ddatblygu polisi trethi yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau y gall rhanddeiliaid nodi ble, pryd a sut y gallant ymgysylltu â'n hagenda dreth orau, ac i gydweithio â ni i gydgyflawni ein blaenoriaethau o ran polisi trethi i Gymru.

Mae'r Adroddiad yn amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran yr ymrwymiadau sy'n ymwneud â threth yn ein Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys ymgynghoriadau mawr a gyhoeddwyd ym meysydd diwygio cyllid llywodraeth leol a'r ardoll ymwelwyr.

Mewn perthynas â'r trethi datganoledig presennol, mae'r Adroddiad yn ymdrin â rhai cerrig milltir allweddol a gyflawnwyd eleni gan gynnwys cyhoeddi'r ddau adolygiad annibynnol o'n dwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn, gan gyflawni'r ymrwymiad i'r ddwy dreth gael eu hadolygu o fewn chwe blynedd ar ôl i'w priod Ddeddfau gael Cydsyniad Brenhinol.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol ichi. Mae croeso i chi roi mewnbwn, rhannu syniadau a mynegi eich barn ar unrhyw un o'r pynciau a drafodir yn yr adroddiad hwn drwy gysylltu â Thrysorlys Cymru drwy un o'r ffyrdd a restrir ar ddiwedd y ddogfen.



**Rebecca Evans AS**

**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

## Cefndir

1. Mae tair treth wedi cael eu datganoli i Gymru – y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a Chyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC).

2. Mae'r tair treth hyn yn cynhyrchu refeniw yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, gyda'r gweddill yn dod o Lywodraeth y DU mewn grant bloc.

3. Mae'n hanfodol bod y trethi a ddatganolwyd i Gymru a'r ddwy dreth leol – y dreth gyngor ac ardrethi annomestig – yn cael eu gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, er mwyn cynhyrchu'r refeniw sydd ei angen i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig Cymru megis iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a seilwaith trafnidiaeth.

4. Mae ein Fframwaith Polisi Trethi[1] yn darparu sail i'n gwaith ar drethi yng Nghymru. Cyhoeddwyd ein diweddariad i'r Fframwaith Polisi Trethi[2] ym mis Tachwedd 2021 ac mae'n cynnwys ein pum egwyddor treth a'n 'dull o lunio polisi trethi'. Mae ein hegwyddorion treth yn sicrhau bod y ffordd rydym yn datblygu ac yn cyflawni polisïau trethi yng Nghymru yn gyson ac yn gydlynol, ac yn cadarnhau y dylai trethi Cymru wneud y canlynol:

   - Codi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl.
   - Cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru.
   - Bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml.
   - Cael eu datblygu drwy gydweithredu ac ymwneud.
   - Cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru fwy cyfartal.

5. Mae'r diweddariad i'r Fframwaith Polisi Trethi yn nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ystyried cynaliadwyedd, tegwch a chydraddoldeb wrth fynd i'r afael â'n blaenoriaethau.

[1] Fframwaith polisi trethi | LLYW.CYMRU

[2] Diweddariad ar y fframwaith polisi trethi | LLYW.CYMRU

6. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gwaith Polisi Trethi ar gyfer 2021-2026[3] ym mis Tachwedd 2021. Mae'r Cynllun Gwaith Polisi Trethi yn ddull pwysig o godi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid a phartïon eraill â diddordeb o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio iddo, ac mae'n eu galluogi i ymgysylltu â'r agenda dreth yng Nghymru.

7. Er mwyn galluogi rhanddeiliaid a phartneriaid i gydweithio â Llywodraeth Cymru ymhellach er mwyn datblygu a chyflawni polisi trethi sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau Cymru, cynhelir ymgyngoriadau a gweithgarwch ymgysylltu penodol arall ar bolisi trethi fel y bo'n briodol. Hefyd, rydym yn cynnal cynhadledd dreth flynyddol sy'n cynnig cyfle i ystyried rhai o'r ffrydiau gwaith a'r materion eraill sy'n ymwneud â threth yn fanylach.

8. Mae'r Adroddiad Polisi Trethi hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran yr agenda polisi trethi yng Nghymru. Dyma'r trydydd adroddiad ers i Gynllun Gwaith Polisi Trethi 2021-2026 gael ei gyhoeddi, ac mae'n rhan o becyn o ddogfennau a gyhoeddwyd ar y cyd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.

[3] Cynllun gwaith polisi trethi 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU

## Cyfraddau treth Cymru

### Cefndir

9. Cyflwynwyd y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar 1 Ebrill 2018, a chânt eu casglu a'u gweinyddu gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Cyflwynwyd CTIC ar 6 Ebrill 2019 a chaiff ei chasglu a'i rheoli gan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF).

### Cyfraddau Treth Incwm Cymru

10. Mae treth incwm wedi'i datganoli'n rhannol i Gymru. Felly, er bod Llywodraeth Cymru yn gallu amrywio'r tair cyfradd treth incwm (sylfaenol, uwch ac ychwanegol) ar gyfer trethdalwyr Cymreig[4], Llywodraeth y DU sy'n dal i fod yn gyfrifol am bob agwedd arall ar y dreth a CThEF sy'n parhau i weinyddu treth incwm yng Nghymru.

11. Fel rhan o'r broses, mae Llywodraeth y DU yn gostwng pob un o dair cyfradd treth incwm y DU ar gyfer trethdalwyr Cymreig 10c, ac yn gwneud gostyngiad cyfatebol i grant bloc Cymru, sy'n ariannu gwasanaethau cyhoeddus a ddatganolwyd i Gymru. Drwy bleidlais yn y Senedd, mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu a ddylid gosod CTIC ar 10c, a thrwy hynny sicrhau bod trethdalwyr yng Nghymru a Lloegr yn talu'r un gyfradd, neu osod cyfraddau gwahanol.

12. Yn unol â'i hymrwymiad i beidio â chymryd mwy mewn CTIC oddi ar drethdalwyr Cymru cyhyd ag y bydd effaith economaidd y Coronafeirws yn parhau o leiaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod CTIC ar gyfer 2024-25 ar 10c, gan gynnal y lefelau cyfredol. Rhaid i hyn gael ei gadarnhau gan y Senedd drwy gynnig cyn cytuno ar Gyllideb derfynol 2024-25.


13. Dengys Ffigur un y cyfraddau a'r trothwyon arfaethedig yn seiliedig ar drothwyon Treth Incwm a lwfansau personol 2024-25.

---

[4] Yn y rhan fwyaf o achosion, diffinnir trethdalwyr Cymreig fel pobl sy'n byw yng Nghymru. Fodd bynnag, darperir diffiniad llawn o dan a.8 o Ddeddf Cymru 2014:

https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/section/8/enacted

## Ffigur un: Cyfraddau Treth Incwm Arfaethedig yng Nghymru, 2024-25



## Treth Trafodiadau Tir

14. Caiff cyfraddau a throthwyon y Dreth Trafodiadau Tir eu hadolygu'n barhaus. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r cyfraddau na'r trothwyon yn ystod y flwyddyn hon. Gwnaed y newid diwethaf i'r prif gyfraddau preswyl ym mis Hydref 2022 a, chyn hynny, gwnaed y newidiadau parhaol diwethaf ym mis Rhagfyr 2020.

### Tabl un: Prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 10 Hydref 2022)

| Trothwy prisiau | Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir |
|---|---:|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Dros £225,000 i £400,000 | 6% |
| Dros £400,000 i £750,000 | 7.5% |
| Dros £750,000 i £1,500,000 | 10% |
| Mwy nag £1.5m | 12% |

### Tabl dau: Cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020)

| Trothwy prisiau | Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir |
|---|---:|
| £0 i £180,000 | 4% |
| Dros £180,000 i £250,000 | 7.5% |
| Dros £250,000 i £400,000 | 9% |
| Dros £400,000 i £750,000 | 11.5% |
| Dros £750,000 i £1,500,000 | 14% |
| Mwy nag £1.5m | 16% |

**Tabl tri: Prif gyfraddau amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020)**

| Trothwy prisiau | Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir |
|---|---:|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Dros £225,000 i £250,000 | 1% |
| Dros £250,000 i £1,000,000 | 5% |
| Mwy nag £1m | 6% |

**Tabl pedwar: Cyfraddau rhent lesoedd amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020)**

| Trothwy prisiau | Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir |
|---|---:|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Dros £225,000 i £2,000,000 | 1% |
| Mwy na £2m | 2% |

## Treth Gwarediadau Tirlenwi

15. Mae Cyllideb Ddrafft 2024-25 yn cynnig y dylai cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi gynyddu yn unol â chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), fel y'i rhagfynegwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn weithredol o 1 Ebrill 2024 ymlaen. Mae hyn yn parhau â'r polisi o sicrhau cysondeb â dull Llywodraeth y DU o ymdrin â chyfraddau Treth Dirlenwi a'u cynyddu yn unol â chwyddiant rhagamcanol ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

### Tabl pump: Cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (cyfradd fesul tunnell)

| Cyfradd | O 1 Ebrill 2022 | O 1 Ebrill 2023 | O 1 Ebrill 2024 |
|---|---:|---:|---:|
| Safonol | £98.60 | £102.10 | £103.70 |
| Is | £3.15 | £3.25 | £3.30 |
| Gwarediadau anawdurdodedig | £147.90 | £153.15 | £155.55 |

## A. Cyflawni amcanion strategol y llywodraeth gan gynnwys ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

### 1. Datblygu cyfraddau treth incwm Cymru

**Diben**

16. Parhau i ystyried sut y gallai newidiadau posibl i Gyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) effeithio ar drethdalwyr Cymreig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo[5] i beidio â chymryd mwy mewn CTIC oddi ar deuluoedd Cymru cyhyd ag y bydd effaith economaidd y Coronafeirws yn parhau, o leiaf.

**Cefndir**

17. Cyflwynwyd CTIC ar 6 Ebrill 2019. Gostyngwyd cyfraddau'r DU ar incwm nad yw'n dod o gynilion na difidendau 10c ym mhob band ar gyfer trethdalwyr Cymreig a phennwyd cyfraddau Cymru ar 10c. Mae cynnal cyfraddau Cymru ar y lefel hon ym mhob band yn golygu y bydd trethdalwyr Cymreig yn talu'r un cyfraddau treth incwm cyffredinol â'r rhai yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

18. Mae gan Lywodraeth Cymru Gytundeb Lefel Gwasanaeth â CThEF ar gyfer casglu CTIC ar ran Gweinidogion Cymru. Mae Bwrdd CTIC, a gadeirir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a CThEF, yn goruchwylio'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cymru a CThEF. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn nodi gofynion a mesurau perfformiad ar gyfer rhoi CTIC ar waith. Caiff y Cytundeb ei adolygu'n flynyddol.

19. Fel y nodir yn y Cytundeb, mae'n ofynnol i CThEF gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar y ffordd y mae'n gweinyddu CTIC. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y ffordd y mae CThEF yn gweinyddu CTIC, gan gynnwys:

- Gweithgarwch cydymffurfiaeth (gan gynnwys sicrwydd cyfeiriadau).
- Casglu refeniw a rhoi cyfrif amdano.
- Gwasanaeth a chymorth i gwsmeriaid.

[5] Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad [HTML] | LLYW.CYMRU

- Data ar gyfer pennu cyfraddau a rhagolygon.
- Data ar gyfer gwaith rheoli arian Llywodraeth Cymru.
- Costau rhoi CTIC ar waith, ac ailgodi tâl am gostau CThEF.

**Tystiolaeth a gwaith dadansoddi**

20. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn mynd ati'n annibynnol i archwilio gwaith CThEF er mwyn sicrhau llywodraethu da a gwerth am arian. Edrychodd yr adroddiad diweddaraf[6], a gyhoeddwyd ar 19 Ionawr 2023, yn benodol ar systemau a phrosesau CThEF er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben a nododd fod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn fodlon ar drefniadau CThEF ar gyfer gweinyddu CTIC, a'i bod hefyd yn fodlon bod y trefniadau llywodraethu a'r costau a delir gan Lywodraeth Cymru yn gywir ac yn deg.

21. Mae gweithgor dadansoddol ar dreth incwm ddatganoledig yn goruchwylio'r gwaith o ddadansoddi ystadegau ar dreth incwm ddatganoledig, gan gynnwys y cyhoeddiadau alldro. Ymhlith aelodau'r grŵp hwn mae swyddogion o CThEF, Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Comisiwn Cyllidol yr Alban a Llywodraeth yr Alban.

22. Mae ystadegau alldro treth incwm yn nodi refeniw CTIC a'r refeniw cyfatebol ar gyfer gweddill y DU. Defnyddir y ffigurau hyn i gyfrifo'r addasiad i grant bloc Llywodraeth Cymru – sef y lleihad yn y cyllid gan Lywodraeth y DU i ystyried y refeniw y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cael yn uniongyrchol o'r trethi datganoledig.

23. Ym mis Gorffennaf 2023, cyhoeddodd CThEF ei ail gyfres o ystadegau alldro yn ymwneud â CTIC[7]. Dangosodd yr ystadegau alldro mai'r refeniw o CTIC yn 2021-22 oedd £2,384 miliwn, sef cynnydd o 11.4% o gymharu â 2020-21. Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ei hamcangyfrifon poblogaeth diwygiedig, gan ei gwneud yn bosibl i'r symiau cysoni mewn perthynas ag ystadegau alldro treth incwm 2021-22 gael eu cyfrifo. Cyhoeddwyd manylion y rhain mewn datganiad ar y cyd â Thrysorlys EF ar 6 Rhagfyr 2023.

[6] Administration of Welsh rates of income tax 2021-22 – adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

[7] Cyfraddau Treth Incwm Cymru - adroddiad blynyddol CThEF 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

24. Mae rhagolwg CTIC ar gyfer 2024-25 £244m yn uwch na'r hyn a nodwyd yn y gyllideb derfynol ym mis Chwefror. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cynnydd mwy cyffredinol mewn refeniw trethi yn rhagolwg diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, sy'n adlewyrchu chwyddiant ac enillion sy'n uwch na'r disgwyl.

25. Mae'r sefyllfa net gyffredinol rhwng refeniw trethi datganoledig a'r addasiad i'r grant bloc yn cynhyrchu £154m yn 2024-25 heb gynnwys y symiau cysoni ar gyfer 2021-22. Mae cynnwys y symiau cysoni yn cynyddu'r sefyllfa net £107m i £261m.

26. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn llunio rhagamcanion o'r refeniw o drethi datganoledig, gan gynnwys CTIC, i Lywodraeth Cymru. Caiff y *Rhagolwg Trethi Cymreig* diweddaraf ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.

27. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu pennu CTIC ar gyfer 2024-25 ar 10c. Bwriedir i hyn gael ei gyflwyno gerbron y Senedd drwy gynnig cyn ystyried Cyllideb derfynol 2024-25.

28. Ar y cyd â'r Gyllideb Ddrafft, rydym wedi cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru o'r Canllaw Cyflym ar gyfer CTIC. Mae'n rhoi amcangyfrifon o'r effaith y gallai newidiadau i bob un o dair Cyfradd Treth Incwm Cymru ei chael ar refeniw yn 2024-25 a 2025-26.

### Canlyniad a'r camau nesaf

29. Bydd y broses barhaus o reoli CTIC yn mynd rhagddi drwy Fwrdd CTIC, gan gyfeirio at y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cymru a CThEF.

30. Caiff y broses hon ei llywio gan yr ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu, yn ogystal â rhagolygon trethi a'r rhagolygon economaidd a chyllidol ehangach.

## 2. Diwygio cyllid llywodraeth leol

### Diben

31. Gwella systemau cyllid llywodraeth leol a threthiant lleol er mwyn sicrhau eu bod yn decach ac yn fwy graddoledig, cynaliadwy a chywir ac, ar yr un pryd, barhau i gefnogi gwasanaethau lleol hanfodol fel addysg, gofal cymdeithasol, tai, trafnidiaeth leol, plismona a diogelwch cymunedol. Byddwn hefyd yn gwneud newidiadau a fydd yn cyfrannu at gyflawni ein huchelgeisiau ehangach ar gyfer Cymru gryfach, decach a mwy gwyrdd.

## Cefndir

32. Yn ein Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio rydym yn ymrwymo i sicrhau treth gyngor decach a mwy graddoledig. Mae ein rhaglen hefyd yn cynnwys ymrwymiadau eraill sy'n berthnasol i gyllid llywodraeth leol ac ardrethi annomestig, gan gynnwys dadlau dros ddatganoli trethi'n glir ac yn sefydlog i Gymru, sy'n cryfhau ymreolaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau ac yn lleihau'r baich gweinyddol ar lywodraeth leol.

33. O ran ardrethi annomestig, rydym yn parhau i roi cryn dipyn o gymorth drwy gynnig rhyddhad i fusnesau bach, y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, elusennau, y stryd fawr a lleoliadau gofal plant. Gwnaethom gynnal ymarfer ailbrisio a chyflwyno proses apelio newydd yn 2023 er mwyn diweddaru sylfaen drethu annomestig Cymru a sicrhau ei bod yn gywir o hyd ac rydym yn cefnogi hyn drwy ddarparu rhyddhad trosiannol.

## Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

34. Rydym yn cynnal gwefan storio[8] lle rydym yn cyhoeddi ymchwil sy'n ymwneud â'r trethi lleol. Ategir y diwygiadau graddol rydym wedi'u hamlinellu ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig gan sail dystiolaeth fanwl a gyhoeddwyd mewn Crynodeb o Ganfydddiadau[9] yn 2021. Gwnaeth y crynodeb hwn gymhwyso gwybodaeth newydd am amgylchiadau economaidd-gymdeithasol penodol Cymru at amrywiaeth o syniadau, o newidiadau cynyddrannol yn y byrdymor i'r tymor canol, i opsiynau ar gyfer trefniadau amgen dros gyfnod hwy o amser.

35. Rydym wedi parhau i ychwanegu gwaith dadansoddi manwl at ein tystiolaeth yn ystod 2023, gan gynnwys:

- Canfyddiadau[10] ton 2023 Arolwg Omnibws Cymru i agweddau pobl at y dreth gyngor.
- Crynodeb[11] o'r ymatebion i ymgynghoriad Cam 1 Llywodraeth Cymru ynghylch treth gyngor decach.

---

[8] Tystiolaeth ac ymchwil ar y dreth gyngor ac ardrethi annomestig | LLYW.CYMRU

[9] Diwygio cyllid llywodraeth leol yng Nghymru: crynodeb o'r canfyddiadau | LLYW.CYMRU

[10] Agweddau'r cyhoedd at y dreth gyngor: 2023 | LLYW.CYMRU

[11] Treth Gyngor Decach | LLYW.CYMRU

- Datblygu'n gynyddol y data a ddelir gennym ar ardrethi annomestig a'r dreth gyngor er mwyn llywio dewisiadau polisi.
- Adroddiad blynyddol[12] ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.
- Comisiynu gwaith dadansoddi gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid er mwyn meithrin dealltwriaeth am ddulliau o ddiwygio'r dreth gyngor[13].

36. Rydym wedi parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â phartneriaid mewn llywodraeth leol, yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac yn Nhribiwnlys Prisio Cymru ac ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol eraill gan gynnwys Cyngor ar Bopeth Cymru a chymunedau busnes, er mwyn trafod ein cynlluniau.

**Canlyniad a'r camau nesaf**

**Treth gyngor decach**

37. Amlinellodd yr ymgynghoriad Cam 1 ynghylch treth gyngor decach yn 2022 raglen uchelgeisiol o ddiwygiadau fel y man cychwyn tuag at greu system decach. Gwnaethom geisio barn ynghylch creu strwythur treth gyngor wedi'i ddiweddaru a llai anraddoledig; ymrwymo i'w ddiweddaru'n rheolaidd yn y dyfodol; cynnal adolygiad o'r holl ddisgowntiau a gostyngiadau; yn ogystal â moderneiddio'r gwasanaeth i drethdalwyr a gwella tryloywder. Mae'r elfennau hyn o'r gwaith yn mynd rhagddynt.

38. Roedd cefnogaeth glir i'r ymgynghoriad Cam 1 ymhlith amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae'r dystiolaeth a'r arbenigwyr yn cytuno ei bod yn annheg parhau i seilio biliau treth gyngor ar brisiadau eiddo o 20 mlynedd yn ôl ac mae'r strwythur yn rhoi mwy o faich, yn gymharol, ar eiddo gwerth is.

39. Ar ôl ystyried yr ymatebion yn ofalus, rhoddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ddiweddariad[14] ar ddiwygiadau i drethi lleol i'r Senedd ar 2 Mai 2023. Rydym wedi parhau i weithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, llywodraeth leol, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a gwahanol sefydliadau cynrychioliadol. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi dechrau ar y paratoadau cychwynnol ar gyfer cynnal ymarfer ailbrisio eiddo, gan ddatblygu technoleg Model Prisio Awtomataidd o'r radd flaenaf. Rydym bellach yn defnyddio gwybodaeth fanwl i leihau nifer y

---

[12] Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: adroddiadau blynyddol | LLYW.CYMRU

[13] Sefydliad Astudiaethau Cyllid: 2023

[14] Datganiad Llafar: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddiwygio Trethi Lleol (2 Mai 2023) | LLYW.CYMRU

diwygiadau y gallem eu cyflawni yn y dyfodol. Ceir rhagor o wybodaeth am y dulliau posibl o sicrhau treth gyngor decach a mwy graddoledig yng Nghymru yn y dyfodol yn yr ymgynghoriad Cam 2[15] a gyhoeddwyd ar 14 Tachwedd.

## Ardrethi annomestig

40. Ar 29 Mawrth 2022[16], gwnaethom sefydlu rhaglen i ddiwygio ardrethi annomestig a gyflwynir yn ystod tymor y Senedd hon. Mae ein huchelgais i greu Cymru decach, wyrddach a chryfach yn sail i unrhyw newidiadau posibl i'r system ardrethi annomestig.

41. Gwnaethom lansio ymgynghoriad 12 wythnos yn ddiweddarach yn 2022 a oedd yn ceisio sylwadau ar ddiwygio ardrethi annomestig yng Nghymru. Ymdrinodd yr ymgynghoriad ag amrywiaeth eang o newidiadau arfaethedig i'r system ardrethi annomestig, gan gynnwys:

    - Ailbrisiadau mwy rheolaidd.
    - Y potensial i amrywio'r lluosydd.
    - Llifau gwybodaeth gwell.
    - Adolygu'r pecyn presennol o ryddhadau ac esemptiadau.
    - Mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thwyll ac osgoi talu ardrethi annomestig.

    Yn sgil cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad[17], rydym yn parhau i ganolbwyntio ar greu system ardrethi sy'n amlwg yn well i Gymru, nid dim ond yn wahanol i'r un bresennol.

42. Gwnaed datganiad pellach ar 2 Mai 2023[18] a oedd adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yma, gan gadarnhau ein hymrwymiad i ddiwygio ardrethi annomestig yn ystod gweddill tymor y Senedd. Bydd y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)[19], a gyflwynwyd yn y Senedd ar 20 Tachwedd, yn darparu'r sail ddeddfwriaethol sydd ei hangen i ddiwygio ardrethi annomestig yng Nghymru mewn ffordd ystyrlon ac

---

[15] Treth Gyngor Decach: Ymgynghoriad Cam 2 (14 Tachwedd 2023)

[16] Datganiad Llafar: Diwygio Ardrethi Annomestig (29 Mawrth 2022) | LLYW.CYMRU

[17] Diwygio ardrethi annomestig yng Nghymru | LLYW.CYMRU

[18] Datganiad Llafar: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddiwygio Trethi Lleol (2 Mai 2023) | LLYW.CYMRU

[19] Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Senedd Cymru)

mae hefyd yn cyflawni ein hymrwymiad i gynnal ymarferion ailbrisio bob tair blynedd.

43. Fel gyda'r dreth gyngor, mae dulliau amgen o ymdrin ag ardrethi annomestig yn dal i gael eu hystyried ar gyfer y tymor hwy. Roedd yr ymgynghoriad ar ddiwygio ardrethi yn ceisio barn ar y posibilrwydd o gyflwno treth gwerth tir leol: defnyddir yr ymatebion i lywio rhagor o waith yn y maes hwn.

44. Ynghyd â'n cynlluniau ar gyfer treth gyngor decach, mae ein cynlluniau ar gyfer diwygio ardrethi annomestig yn cynnwys rhaglen waith sylweddol a fydd yn cwmpasu sawl blwyddyn. Caiff y newidiadau hyn gryn effaith ar system gyllid llywodraeth leol gwerth £10bn a bydd yn cael effaith uniongyrchol iawn ar gyllid aelwydydd a busnesau. Felly, rhaid inni allu asesu effaith lawn unrhyw gynigion cyn gwneud rhagor o newidiadau.

## 3. Datblygu ardoll ymwelwyr

### Diben

45. Cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr fel y'i nodir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru[20].

### Cefndir

46. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein hymrwymiad i ‘gyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll dwristiaeth’. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo mewn cydweithrediad â Phlaid Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio.

47. Defnyddir ardollau mewn llawer o wledydd er mwyn cefnogi twristiaeth gynaliadwy, gyda'r arian yn cael ei ailfuddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau lleol sy'n hanfodol i brofiad twristiaid. Lle maent yn cael eu defnyddio, maent yn darparu ffrwd refeniw bwysig er mwyn i ardaloedd lleol allu diogelu asedau naturiol, lleihau effeithiau ymwelwyr a gwella neu hyrwyddo arlwy twristiaeth.

48. Daeth yr ymgynghoriad ffurfiol i ben ar 13 Rhagfyr 2022. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori ym mhob rhanbarth yng Nghymru, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid.

[20] Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad [HTML] | LLYW.CYMRU

49. Cawsom dros 1000 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Cyhoeddwyd canlyniad yr ymgynghoriad ar 30 Mawrth 2023[21]. Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans AS, fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â chynlluniau i ddatblygu deddfwriaeth ynglŷn ag ardoll ymwelwyr[22].

**Tystiolaeth a gwaith dadansoddi**

50. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad cyhoeddus, cafodd ymchwil defnyddwyr ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'i chynnal gan BVA BDRC i gasglu barn trigolion Cymru a defnyddwyr gwyliau domestig y DU ar yr ardoll ymwelwyr arfaethedig. Edrychodd ar farn trigolion a defnyddwyr ynghylch a ddylai ymwelwyr gyfrannu drwy ardoll, a ydynt yn fodlon talu ardoll ac a fyddent yn newid eu hymddygiad petai ardoll yn cael ei chyflwyno[23].

51. Cwblhaodd mwy na 2,500 o ymatebwyr yr arolwg; roedd 1,005 yn byw yng Nghymru. Ar y cyfan, roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cefnogi egwyddor ardoll ymwelwyr. Roedd mwyafrif (58%) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai twristiaid gyfrannu at gostau cynnal a buddsoddi yn y cyrchfannau y maent yn aros ynddynt, gan godi ymhlith pobl sydd â llawer o dwristiaeth yn eu hardal – yng Nghymru (66%) a'r DU (72%) gyda dim ond 13% yn anghytuno.

52. Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi gwneud ymchwil ar ran Gweinidogion Cymru er mwyn deall sut mae darparwyr llety yn gweithredu ar hyn o bryd a llywio'r ffordd y byddai ardoll ymwelwyr yn gweithio yn ymarferol. Mae ymchwil defnyddwyr wedi'i chynnal gyda nifer o ddarparwyr llety ledled Cymru. Mae'r gwaith hwn yn ein helpu i ddeall faint o ddarparwyr llety sydd ledled Cymru a'r amrywiaeth o ddarparwyr llety sydd a bydd yn ein helpu i ddeall sut y dylem fynd ati i lunio system gasglu effeithlon sy'n hawdd i'w defnyddio.

---

[21] Ardoll ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU

[22] Datganiad Ysgrifenedig Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer ardoll ymwelwyr dewisol (30 Mawrth 2023) | LLYW.CYMRU

[23] Ymchwil ardoll ymwelwyr: barn defnyddwyr a thrigolion | LLYW.CYMRU

### Canlyniad a'r camau nesaf

53. Cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer tymor nesaf y Senedd ar 27 Mehefin 2023. Caiff deddfwriaeth ar gyfer yr ardoll ymwelwyr ei chyflwyno yn y Senedd erbyn Hydref 2024.

54. Rydym yn gweithio gydag arbenigwyr i asesu'r effeithiau economaidd posibl, yn ogystal â'r effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ehangach y byddai rhoi ardoll ymwelwyr ar waith yng Nghymru yn eu cael ac yn ddiweddar gwnaethom gomisiynu ymchwil i ystyried ac asesu effeithiau aneconomaidd ardollau mewn cyrchfannau tramor. Caiff y gwaith hwn ei wneud gan Brifysgol Bangor. Byddwn yn llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn amlinellu effeithiau posibl unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig. Bydd yn ategu'r bil drafft pan gaiff ei gyflwyno gerbron y Senedd yn ystod hydref 2024.

55. Bydd swyddogion o Drysorlys Cymru ac ACC yn parhau i weithio gyda'r sector twristiaeth er mwyn ystyried effeithiau a gofynion rhoi ardoll ymwelwyr ar waith yng Nghymru.

## 4. Datblygu'r achos dros ddatganoli treth mewn ffordd glir a sefydlog

### Diben

56. Cyflwyno achos dros ddatganoli treth mewn ffordd glir a sefydlog yng Nghymru[24] a cheisio cytundeb â Llywodraeth y DU ar yr un pryd ynghylch system addas ar gyfer datganoli pwerau trethu newydd i Gymru.

### Cefndir

57. Gall trethiant datganoledig fod yn ysgogiad pwerus o ran dylanwadu ar newid ymddygiad, yn ogystal â chynhyrchu refeniw i gefnogi gwariant cyhoeddus er mwyn diwallu anghenion Cymru a'n galluogi i ddatblygu trethi mwy graddoledig. Mae hefyd yn ein galluogi i ddatblygu dull mwy strategol o ymdrin â threthiant canolog a lleol yng Nghymru, gan sicrhau y gall ddiwallu anghenion a blaenoriaethau dinasyddion, busnesau a chymunedau yn well.

---

[24] Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad [HTML] | LLYW.CYMRU

58. Ers 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ceisio pwerau trethu newydd ar gyfer treth ddatganoledig newydd bosibl bosibl ‘a dir sy'n addas ar gyfer datblygu’, – sef treth ar dir gwag’. Diben treth ar dir gwag fyddai helpu i ddatblygu tir y mae caniatadau eisoes wedi'u rhoi ar ei gyfer neu dir sydd o fewn y cynllun datblygu lleol ond nad yw'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Byddai'r dreth newydd yn canolbwyntio ar gymell newid ymddygiad yn hytrach na chodi refeniw.

59. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ofalus addasrwydd treth ar dir gwag yn dod ag ysgogiad treth ychwanegol i gymell datblygu cynnar gan helpu i gyflawni ein huchelgeisiau o ran tai ac adfywio.  Bydd ceisio'r pŵer hefyd yn profi'r mecanwaith yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 y gellir ei ddefnyddio i ddatganoli pwerau trethu newydd.

**Tystiolaeth a gwaith dadansoddi**

60. Mae'r cynnydd cyfyngedig sydd wedi'i wneud gyda Llywodraeth y DU ers iddi gael ei chytuno bod y cynigion wedi'u datblygu ddigon ac ers i gais ffurfiol i'r pwerau gael eu trosglwyddo gael ei wneud yn 2020, wedi dangos yn glir nad yw'r broses ar gyfer datganoli pwerau trethu newydd yn addas at y diben. Os na all y broses sicrhau bod modd datganoli treth gymharol fach, gul a phenodol sy'n cyd-fynd yn agos â chyfrifoldebau datganoledig, mae'n anodd dychmygu sefyllfa lle y gallai Llywodraeth Cymru lwyddo i gyflwyno'r achos dros gymhwysedd treth pellach o dan y trefniadau presennol.

**Canlyniad a'r camau nesaf**

61. Rydym yn parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU er mwyn ceisio pwerau i gyflwyno treth ar dir gwag yn ogystal â chyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU dros adolygu a diwygio'r broses ar gyfer datganoli pwerau trethu newydd.

## 5. Ystyried yr achos dros ddatblygu trethi amgylcheddol newydd i Gymru, gan weithio gyda Llywodraeth y DU lle y bo'n briodol

**Diben**

62. Parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu treth pecynnau plastig a'i rhoi ar waith ledled y DU; a datblygu sail dystiolaeth er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o effaith trethi eraill sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig mewn meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli, meysydd a gedwir yn ôl, a meysydd trethiant newydd.

## Cefndir

63. Mae ein polisi trethi yn cyflwyno ysgogwr pwysig a allai gael ei ddefnyddio i gefnogi amcanion ehangach y llywodraeth. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'r ystyriaeth a roddir i'r achos dros ddatblygu trethi amgylcheddol newydd i Gymru, ac fel ffordd o gefnogi ymdrechion ehangach i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Fodd bynnag, rydym wedi cymryd gofal i fabwysiadu dull strategol clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan weithio gyda rhanddeiliaid i benderfynu ar yr hyn y dylem ganolbwyntio arno er mwyn cyflawni amcanion polisi a sicrhau'r effaith fwyaf posibl, yn enwedig o ran sicrhau newidiadau parhaol mewn ymddygiad.

## Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

64. Daeth deddfwriaeth i gyflwyno treth pecynnau plastig i rym ledled y DU ar 1 Ebrill 2022, gan gynnig cymhelliant economaidd clir i fusnesau ddefnyddio plastig wedi'i ailgylchu wrth weithgynhyrchu deunydd pecynnu plastig. Rydym hefyd yn cydweithio â llywodraethau eraill y DU i ddatblygu a chyflwyno sawl menter arall er mwyn einhelpu i newid i ecomoni gylchol a gwneud cynnydd cyflymach tuag at sicrhau Cymru ddiwastraff, carbon sero net. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pecynnu, Cynllun Dychwelyd Ernes a thracio gwastraff digidol gorfodol.

## Canlyniad a'r camau nesaf

65. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i gydweithio â Llywodraeth y DU mewn perthynas ag unrhyw werthusiad o effaith y dreth pecynnau plastig yng Nghymru. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol er mwyn deall effaith mentrau amgylcheddol eraill sy'n cwmpasu'r DU gyfan. Bydd y dystiolaeth hon yn ein helpu i nodi pa gyfleoedd eraill a allai fod i ddatblygu trethi eraill sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd mewn meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli, meysydd a gedwir yn ôl, a meysydd trethiant newydd.

# B. Y gwaith parhaus o adolygu polisïau a'u rhoi ar waith mewn perthynas â'n trethi presennol a meysydd polisi cysylltiedig eraill

## 6. Datblygu polisi treth trafodiadau tir

### Diben

66. Sicrhau bod y Dreth Trafodiadau Tir yn parhau i gyflawni nodau polisi Llywodraeth Cymru ac, ar yr un pryd, yn cyflawni ei phrif ddiben o godi refeniw er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

### Cefndir

67. Mae'r Dreth Trafodiadau Tir, a godir wrth brynu neu brydlesu tir ac adeiladau, yn dreth a gynlluniwyd yn bennaf i godi refeniw er mwyn helpu i dalu am wariant Llywodraeth Cymru. Gall hefyd gefnogi nodau polisi eraill Llywodraeth Cymru drwy, er enghraifft, ryddhadau, neu addasu'r cyfraddau a godir.

68. Mae'r Dreth Trafodiadau Tir yn ffynhonnell refeniw sylweddol i Lywodraeth Cymru. Cynhyrchodd y Dreth Trafodiadau Tir refeniw o £372 miliwn yn 2022-23 a rhagamcenir y bydd yn cynyddu i £314 miliwn yn 2023-24.

69. Caiff cyfraddau preswyl uwch o'r Dreth Trafodiadau Tir eu codi ar eiddo preswyl ychwanegol a brynir gan unigolion sydd eisoes yn berchen ar eiddo preswyl, er enghraifft ail gartrefi, eiddo prynu i osod, ac unrhyw annedd a brynir gan gwmni, er enghraifft, nid unigolyn.

### Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

70. Mae ACC yn cyhoeddi data rheolaidd ac amserol ar y Dreth Trafodiadau Tir, yn fisol ac yn chwarterol. Mae hefyd yn cyhoeddi data blynyddol; mae'r pumed datganiad ystadegol blynyddol ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir yn cwmpasu'r cyfnod 2022-23 ac yn darparu amrywiaeth o wybodaeth am drafodiadau eiddo preswyl ac amhreswyl yn ôl ardaloedd daearyddol gwahanol, gan gynnwys data cenedlaethol, data awdurdodau lleol a data etholaethau.

71. Ar lefel genedlaethol, mae'r prif eitemau o ddata yn y datganiad ystadegol ar gyfer 2022-23 yn cynnwys y canlynol:
    - Cyflwynwyd cyfanswm o fwy na 59,500 o ffurflenni treth gan drethdalwyr.
    - Roedd treth gwerth cyfanswm o £372 miliwn yn ddyledus.

- Roedd treth gwerth £278 miliwn yn ddyledus ar gyfer trafodiadau preswyl. Roedd hyn yn cynnwys refeniw ychwanegol gwerth £82 miliwn a godwyd o gyfraddau preswyl uwch.
- Roedd treth gwerth £94 miliwn yn ddyledus ar gyfer trafodiadau amhreswyl.

72. Dengys mynegai prisiau tai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol mai pris tŷ pan ddaeth cyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir i rym gyntaf ym mis Ebrill 2018 oedd £159,000, ar gyfartaledd. Ym mis Medi 2023 y prif cyfartalog oedd £215,000 ac £185,000[25] ar gyfer prynwyr tro cyntaf. Mae hyn islaw'r trothwy cychwynnol ar gyfer prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir, sef £225,000. Dengys data'r Dreth Trafodiadau Tir fod tua 60% o drafodiadau preswyl ar gyfer cydnabyddiaeth islaw'r trothwy hwnnw.

## Canlyniad a'r camau nesaf

73. Er mwyn helpu i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu "... mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol pellach i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod" mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried sut y gallai newidiadau i gyfraddau uwch y Dreth Trafodiadau Tir helpu i roi mantais i bobl sy'n prynu cartrefi i fyw ynddynt yn barhaol. Rydym yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith cenedlaethol y gallant ei ddefnyddio i wneud cais am gyfraddau uwch ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau i'w cymhwyso yn eu hardal leol.

74. Yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar reoliadau drafft i ganiatáu estyniadau i'r cyfnod o dair blynedd ar gyfer ad-dalu cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir ac esemptio rhag cyfraddau preswyl uwch o dan amgylchiadau penodol. Bydd y newidiadau yn caniatáu i drethdalwyr hawlio ad-daliad o'r cyfraddau preswyl uwch lle maent yn newid eu prif breswylfan a lle maent wedi gwerthu eu prif breswylfan flaenorol fwy na thair blynedd ar ôl prynu'r cartref newydd, os oedd materion diogelwch tân (e.e. cladin anniogel) wedi effeithio arnynt a oedd wedi atal y broses werthu rhag cael ei chwblhau'n gyflymach. Daw'r ymgynghoriad ar y diwygiadau arfaethedig i ben ym mis Mawrth 2024.

---

[25] Mynegai Prisiau Tai'r DU – Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

75. Cafodd ymgynghoriad ar wahân ar ddiwygiadau deddfwriaethol i ddarparu rhyddhad rhag y Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer trafodiadau cymwys ar safleoedd treth arbennig dynodedig fel rhan o Raglen Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru ei gyhoeddi hefyd yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 a daw i ben ym mis Chwefror 2024.

76. Mae'r cymhellion treth ar gyfer safleoedd treth arbennig, gan gynnwys y rhyddhad arfaethedig rhag y Dreth Trafodiadau Tir, yn brif sbardunau o ran effaith y Rhaglen a bwriedir iddynt helpu safleoedd i ddenu buddsoddiad preifat a chyflawni amcanion y polisi. Rhagwelir y bydd angen i'r rhyddhadau treth fod ar waith unwaith y bydd yr achosion busnes perthnasol wedi'u cymeradwyo a'r safleoedd treth wedi'u dynodi gan Lywodraeth y DU y disgwylir, ar hyn o bryd, iddo ddigwydd ar ddechrau 2024.

77. Byddwn yn parhau i adolygu'r cyfraddau a'r bandiau er mwyn sicrhau bod y Dreth Trafodiadau Tir yn parhau i gyflawni nodau polisi Llywodraeth Cymru ac yn cynhyrchu refeniw ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus pwysig.

## 7. Datblygu polisi treth gwarediadau tirlenwi

### Diben

78. Sicrhau bod polisi Treth Gwarediadau Tirlenwi yn gweithredu fel y'i bwriadwyd, ac ystyried cyfleoedd i'r dreth gefnogi amcanion polisi ehangach y llywodraeth.

### Cefndir

79. Cyflwynodd Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 gyfradd dreth safonol ac is sy'n berthnasol i warediadau ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig. Mae'r gyfradd is yn gymwys i ddeunyddiau sy'n bodloni'r amodau a nodir yn y Ddeddf honno ac mae'r gyfradd safonol yn gymwys i'r holl ddeunyddiau eraill. Hefyd, cyflwynodd y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi drydedd cyfradd dreth ar gyfer gwastraff a waredir mewn lleoedd ar wahân i safleoedd tirlenwi awdurdodedig, a elwir yn gyfradd gwarediadau anawdurdodedig.

80. Mae ACC wedi bod yn casglu a rheoli'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn llwyddiannus ers iddi gael ei chyflwyno ym mis Ebrill 2018. Hyd yma, mae cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cyfateb i gyfraddau'r Dreth Dirlenwi yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae pennu cyfraddau sy'n gyson â'r Dreth Dirlenwi wedi sicrhau bod Cymru yn parhau i fanteisio ar refeniw treth a bydd llai o risg y caiff gwastraff ei symud ar draws ffiniau. Caiff y dull gweithredu hwn ei adolygu bob blwyddyn fel rhan o'r broses flynyddol o bennu cyfraddau, lle rhoddir ystyriaeth i'r manteision a'r anfanteision sydd ynghlwm wrth newid y cyfraddau yn y dyfodol

er mwyn hyrwyddo amcanion amgylcheddol ehangach. Er bod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn codi refeniw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus, treth ymddygiadol ydyw yn bennaf. Ei phrif amcan yw lleihau faint o ddeunyddiau sy'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi yng Nghymru a, thrwy hynny, helpu i newid i economi fwy cylchol lle y caiff adnoddau eu defnyddio'n gyson ac y caiff gwastraff ei osgoi. Wrth i ymddygiad newid, disgwylir i refeniw leihau, wrth i lai o wastraff gael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

**Tystiolaeth a gwaith dadansoddi**

81. Caiff y dull o bennu cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ei lywio gan egwyddorion treth Llywodraeth Cymru a'r amcan i leihau'r gwastraff a waredir ar safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr a'r diwydiant gwastraff ehangach wedi bod yn ffactor allweddol hefyd wrth bennu'r cyfraddau hyd yma. Ein dull gweithredu a fabwysiadwyd oedd mai dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru, a'r egwyddor o godi refeniw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl. Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn cynnwys cynlluniau i gynyddu cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â Threth Dirlenwi'r DU. Byddwn yn parhau i weithio gydag ACC er mwyn monitro'r broses o roi'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar waith er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol.

82. Mae cyfradd gwarediadau anawdurdodedig y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi'i phennu ar 150% o gyfradd safonol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi er mwyn atal gwarediadau anawdurdodedig sy'n fwy tebygol o gael effaith negyddol ar yr amgylchedd a'n cymunedau. Mae'n hyrwyddo tegwch i weithredwyr cyfreithlon ac yn cyfrif am gostau gorfodi ACC. Dylai annog gweithredwyr anghyfreithlon i reoli eu gwastraff yn fwy cynaliadwy drwy o leiaf fynd ag ef i safle tirlenwi awdurdodedig a thalu cyfran deg o dreth, sy'n cefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae ACC wedi codi treth ar sawl achos o warediadau anawdurdodedig ac mae hefyd yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gwella dulliau mesur gwastraff a'r broses o atgyfeirio achosion yn y dyfodol.

83. Mae canfyddiadau'r adolygiad annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (gweler pennod 9) wedi helpu i lywio ein dealltwriaeth o effaith cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar ymddygiadau hyd yma. Canfu'r adolygiad fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gydnaws â pholisïau a blaenoriaethau amgylcheddol Llywodraeth Cymru a nododd ei rôl fel rhan o becyn o fesurau polisi sydd, gyda'i gilydd, yn dargyfeirio gwastraff i ffwrdd o safleoedd tirlenwi ac i fyny'r hierarchaeth gwastraff.

### Canlyniad a'r camau nesaf

84. Bydd parhau â'n dull o ymdrin â chyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer 2024-25 yn parhau i ategu mentrau polisi amgylcheddol ehangach a'i gwneud yn bosibl iddynt weithio ochr yn ochr â'i gilydd er mwyn parhau i gymell newid mewn ymddygiad a helpu i gyflawni nodau amgylcheddol Llywodraeth Cymru.

85. Bydd ein dull o weinyddu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn parhau i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r broses o weithredu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r adolygiad annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi bod yn ddefnyddiol i nodi meysydd allweddol i'w hystyried ymhellach a byddwn yn parhau i wella ein dealltwriaeth o faterion allweddol sy'n ymwneud â rheoli a gwaredu gwastraff drwy gryfhau cydberthnasau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chydberthnasau â'n partneriaid allweddol yn ACC a Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd hyn yn cefnogi'r broses barhaus o ddatblygu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i gyfrannu at gyflawni ein nod o sicrhau Cymru ddiwastraff.

## 8. Adolygu treth trafodiadau tir

### Diben

86. Cynnal adolygiad annibynnol i werthuso effeithiolrwydd Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (y cyfeirir ati fel LTTA o hyn ymlaen).

### Cefndir

87. Roedd rhwymedigaeth statudol ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau i gynnal adolygiad annibynnol o'r Dreth Trafodiadau Tir i'w gwblhau o fewn chwe blynedd ar ôl i LTTA gael Cydsyniad Brenhinol. Diwedd y cyfnod o chwe blynedd oedd mis Mai 2023.

88. Cynhaliwyd yr adolygiad annibynnol gan Alma Economics ac roedd yn canolbwyntio ar y newidiadau penodol a wnaed pan gyflwynwyd LTTA, ac eir ati wedyn i'w chymharu â Threth Dir y Dreth Stamp yn Lloegr. Yn benodol, ystyriodd a gyflawnwyd bwriad y polisi a oedd yn sail i'r newidiadau penodol a ph'un a yw'r newidiadau hynny yn briodol i Gymru o hyd.

### Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

89. Ystyriodd yr adolygiad a oedd bwriadau'r polisi a oedd yn sail i'r newidiadau a'r amrywiadau a wnaed i gyfundrefn y Dreth Trafodiadau Tir o gymharu â'r dreth a'i rhagflaenodd, sef Treth Dir y Dreth Stamp, ar adeg cyflwyno'r Ddeddf wedi'u cyflawni. At hynny, nododd yr adolygiad hefyd a yw'r newidiadau hynny yn briodol o hyd. Ymdriniodd yr adolygiad ag 16 o feysydd o LTTA lle y gwnaed newidiadau i ddeddfwriaeth Treth Dir y Dreth Stamp a oedd yn bodoli eisoes neu amrywiadau oddi wrthi.

### Canlyniad a'r camau nesaf

90. Cyhoeddwyd yr adolygiad ar 15 Chwefror 2023[26]. Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig hefyd[27].

91. Prif gasgliad yr adroddiad oedd bod bwriadau'r polisi wedi'u cyflawni a bod y newidiadau a wnaed yn briodol o hyd.

92. Bydd yr adroddiad a'r canfyddiadau allweddol yn llywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol.

## 9. Adolygu treth gwarediadau tirlenwi

### Diben

93. Cynnal adolygiad annibynnol i werthuso effeithiolrwydd Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

### Cefndir

94. Gwnaethpwyd ymrwymiad gan gyn-Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, yn ystod Cam 3 o'r ddadl ar y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) yn y Cyfarfod Llawn, y byddai adolygiad annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael ei gynnal o fewn chwe blynedd ar ôl i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi gael Cydsyniad Brenhinol.

---

[26] Adolygiad annibynnol: Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (crynodeb) | LLYW.CYMRU

[27] Datganiad Ysgrifenedig Adolygiad Annibynnol o'r Dreth Trafodiadau Tir (15 Chwefror 2023) | LLYW.CYMRU

95. Yn dilyn ymarfer caffael llawn ac agored, comisiynodd Llywodraeth Cymru Eunomia Research and Consulting i gynnal yr adolygiad ac asesu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth yn ogystal ag ystyried unrhyw wersi y gellir eu dysgu ers iddi gael ei rhoi ar waith. Roedd yr adolygiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2023 ac roedd yn canolbwyntio ar ddau gwestiwn allweddol, sef:

    1. Pa effaith y mae cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi'i chael ar ymddygiadau yn y sector gwastraff (gan gynnwys gwarediadau anawdurdodedig)?

    2. I ba raddau y dylanwadodd deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (h.y. heblaw cyfraddau treth) ar ymddygiadau?

96. Cyhoeddwyd yr adroddiad[28] a'r crynodeb gweithredol[29] ar 6 Gorffennaf 2023.

**Tystiolaeth a gwaith dadansoddi**

97. Nododd yr adolygiad fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gydnaws â pholisïau a blaenoriaethau amgylcheddol Llywodraeth Cymru a daeth i'r casgliad ei bod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at flaenoriaethau rheoli gwastraff. Fodd bynnag, roedd yn anodd gwahanu effaith y Dreth Gwarediadau Tirlenwi oddi wrth ffactorau eraill yn y dirwedd bolisi. Daeth yr adroddiad i'r casgliad, er bod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gwneud cyfraniad, ei bod yn debygol bod ffactorau eraill yn chwarae mwy o rôl o ran annog ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff a manteisio ar dechnoleg amgen.

98. O ran effaith cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, nododd yr adolygiad y canlynol:

    - Rhwng 2018 a 2023, roedd cynnydd wedi bod mewn cyfraddau ailgylchu ac ailddefnyddio ac yn y defnydd o dechnolegau amgen. Roedd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn debygol o fod wedi cyfrannu at y newidiadau hyn ond roedd ffactorau eraill yn debygol o fod wedi cael mwy o effaith. Roedd data yn amhendant ynghylch a oedd cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cyd-fynd ag effaith amgylcheddol gwahanol ffrydiau gwastraff.

---

[28] Adolygiad Annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 | (llyw.cymru)

[29] Adolygiad Annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017: crynodeb | LLYW.CYMRU

- Roedd sawl ffrwd wastraff lle nad oedd cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn atal gwastraff rhag cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.
- Yn y cyd-destun presennol, lle mae cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi parhau i gyd-fynd â rhai'r Dreth Dirlenwi, nid oedd y dystiolaeth yn awgrymu bod cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn dylanwadu ar dwristiaeth gwastraff na llifau gwastraff dros y ffin.
- Roedd tystiolaeth bod y bwlch rhwng cyfraddau is a chyfraddau safonol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cyfrannu at gamddosbarthu gwastraff. Byddai angen gwneud rhagor o waith er mwyn deall graddau'r camdosbarthu.
- Roedd y gyfradd gwarediadau anawdurdodedig yn synhwyrol ond roedd rhai amheuon ynghylch pa mor effeithiol ydoedd o ran atal troseddau gwastraff oherwydd y canfyddiad nad oedd yn ddigon gweladwy nac yn cael ei gorfodi.

99. Ni wnaeth yr adolygiad unrhyw argymhellion ond daeth i'r casgliadau allweddol canlynol, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd gan randdeiliaid:

- Mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn rhan hanfodol o becyn o fesurau polisi sydd, gyda'i gilydd, yn dargyfeirio gwastraff i ffwrdd o safleoedd tirlenwi ac i fyny'r hierarchaeth gwastraff (h.y. tuag at atal, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer).
- Roedd gwelliannau a awgrymwyd i'r dreth yn cynnwys:
    - Cyflwyno sawl cyfradd neu gyfradd dreth ganolog i gyfrif am wahanol feichiau amgylcheddol deunyddiau unigol a phroblem camddosbarthu.
    - Newid y cyfraddau y caiff deunyddiau penodol eu trethu arnynt er mwyn sicrhau bod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael yr effaith a ddymunir.
    - Lleihau'r baich gweinyddol y mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ei chael ar weithredwyr safleoedd tirlenwi.
    - Neilltu cyfran o'r refeniw o dreth i wella a chynyddu gweithgarwch rheoleiddio sy'n gysylltiedig â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

**Canlyniad a'r camau nesaf**

100. Er bod canfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad wedi bod yn ddefnyddiol wrth ein helpu i ddeall effaith cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar ymddygiadau hyd yma, rydym yn cydnabod bod natur arbenigol yr adolygiad a'r sampl gymharol

fach o randdeiliaid a gymerodd ran ynddo, yn golygu na ellir dweud bod y canfyddiadau yn cynrychioli safbwyntiau ehangach. Fodd bynnag, mae'r adolygiad wedi bod yn ddefnyddiol i dynnu sylw at sawl maes allweddol i'w hystyried ymhellach er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ymhellach.

101. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol er mwyn nodi pa gamau y gellid eu cymryud yn y tymor hwy er mwyn sicrhau bod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn parhau i gyfrannu'n effeithiol at ein nodau amgylcheddol ehangach.

## 10. Datblygu'r sylfaen drethu Gymreig

### Diben

102. Sicrhau bod yr effeithiau byrdymor, tymor canolig a hirdymor ar y sylfaen drethu Gymreig yn cael eu hystyried wrth fynd ati i ddatblygu polisïau Llywodraeth Cymru.

### Cefndir

103. Mae'r sylfaen drethu yn chwarae rôl hollbwysig yn llesiant economaidd a sefydlogrwydd cyllidol Cymru. Mae'n gonglfaen ar gyfer cynhyrchu refeniw, meithrin datblygu economaidd a chefnogi gwasanaethau cyhoeddus. Mae datblygu ein sylfaen drethu a chynyddu ein hymreolaeth gyllidol yn galluogi Cymru i wneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â'i blaenoriaethau economaidd a chymdeithasol unigryw, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar gyllid gan Lywodraeth y DU.

104. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ymrwymiad i ystyried ffyrdd newydd o gynyddu ein sylfaen drethu ac ystyried goblygiadau unrhyw argymhellion gan y Comisiwn Cyfansoddiadol o ran cyllid.

105. At hynny, mae'r Cytundeb Cydweithio: rhaglen bolisi lawn, yn nodi ymrwymiad i weithio gyda Chanolfan Llywodraethiant Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac eraill i feithrin gwell dealltwriaeth feithrin o'r rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus datganoledig ac anghenion gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn y dyfodol, gan chwilio am ffyrdd newydd o fynd i'r afael ag unrhyw fylchau cyllido a gaiff eu nodi ac o dyfu’n sylfaen drethu.

## Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

106. Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ddadansoddiad o ddatblygiad y swm o dreth incwm a delir fesul person yng Nghymru a'r Alban o gymharu â'r DU gyfan[30].

107. Daw'r dadansoddiad i'r casgliad bod yr ehangu o 30% yn y bwlch 'treth incwm fesul person' rhwng Cymru a'r DU rhwng 2007/08 a 2020-21 wedi digwydd yn bennaf oherwydd incwm cyflogaeth (sy'n cyfrif am fwy na 70% o'r ehangu). Roedd hyn i'w briodoli'n bennaf i ostyngiadau mewn treth incwm o gyflogaeth fesul trethdalwr o gymharu â'r DU.

108. Ers 2015/16, bu mwy o farwolaethau na genedigaethau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae poblogaeth Cymru wedi parhau i gynyddu oherwydd mudo net, gyda lefelau mudo net mewnol y DU ychydig yn uwch na lefelau mudo net rhyngwladol. Os bydd lefelau mewnfudo yn gostwng mae risg y bydd sylfaen treth incwm Cymru yn lleihau.

109. At hynny, yn seiliedig ar dueddiadau yn y gorffennol, rhagamcenir y bydd gan boblogaeth Cymru gyfran gynyddol o'r henoed, cyfran sy'n lleihau'n araf o bobl oedran gwaith a chyfran ostyngol o'r bobl ifanc, sy'n cynyddu'r risg y bydd syflaen treth incwm Cymru yn lleihau ymhellach[31].

110. Gan gydnabod y risg hon, comisiynodd Llywodraeth Cymru Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i adolygu'r dystiolaeth ryngwladol am effeithiolrwydd polisïau i fynd i'r afael â'r materion sy'n deillio o boblogaeth sy'n heneiddio neu'n lleihau. Caiff yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi'n fuan iawn.

111. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar dri ymateb i'r ddau senario posibl y bydd y boblogaeth yn heneiddio ac y bydd y boblogaeth yn lleihau:

- Galluogi ac annog ffrwythlondeb.
- Cadw pobl, yn enwedig gweithwyr ifanc a medrus.
- Denu mudwyr i Gymru, yn enwedig gweithwyr ifanc a medrus

---

[30] Working paper No.21: Developments in devolved income tax (obr.uk)

[31] Byddai angen ystyried y risg i'r sylfaen drethu ochr yn ochr â'r manteision a allai ddeillio o boblogaeth lai a nodau llesiant eraill.

112. Nododd yr adroddiad y canlynol:

- Mae tystiolaeth gref i awgrymu bod polisïau o blaid teuluoedd, megis gofal plant ac absenoldeb rhiant mwy hael, yn gysylltiedig â lefelau uwch o ffrwythlondeb.
- Mae tystiolaeth lai cryf o blaid polisïau sy'n targedu cadw a denu pobl. Ymddengys fod amrywiaeth o ffactorau yn effeithio ar fewnfudo a'r gallu i gadw pobl, gan gynnwys gwaith, addysg a hyfforddiant, tai, gwasanaethau cyhoeddus, trafnidiaeth a chysylltedd. Ymddengys mai cyfleoedd gwaith yw'r ffactor pwysicaf ar gyfer cadw a denu pobl o oedran gwaith.

113. Mae cyfraniad mudo net rhyngwladol at dwf poblogaeth Cymru yn golygu, er bod mewnfudo yn dal i fod yn fater 'a gedwir yn ôl', ei fod yn effeithio ar lawer o gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a bywydau pobl yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn deall y dylid rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi yn llafurlu domestig y DU a'i ddatblygu, yn hytrach nag ystyried mai llafur mudol yw'r ateb i anawsterau recriwtio. Ar yr un pryd, mae amodau demograffig ac economaidd yng Nghymru yn wahanol iawn i'r rhai mewn rhannu eraill o'r DU a dylid eu hystyried yn y System Fewnfudo Seiliedig ar Bwyntiau (mae diboblogi gwledig sy'n waeth yn sgil rhoi terfyn ar hawl pobl i symud yn ddirwystr, y cynnydd mewn anweithgarwch llafur ar ôl pandemig COVID-19, poblogaeth sy'n heneiddio a llai o enedigaethau oll yn enghreifftiau da).

114. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i adolygiad y Pwyllgor Cynghori ar Fudo o'r Rhestr o Alwedigaethau lle ceir Prinder (SOL). Ym mis Hydref, cyhoeddodd y Pwyllgor Cynghori ar Fudo ei adolygiad diweddaraf o SOL[32]. Mae Gweinidogion wedi ysgrifennu at y pwyllgor er mwyn cydnabod cyhoeddi'r adroddiad a byddant yn parhau i gyflwyno'r achos dros system fudo sy'n cydnabod amodau demograffig ac economaidd yng Nghymru.

**Canlyniad a'r camau nesaf**

115. Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi flaenoriaethau Cenhadaeth Economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer economi gryfach[33], a oedd

---

[32] Adolygiad o'r rhestr o alwedigaethau lle ceir prinder 2023

[33] Blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach | LLYW.CYMRU

yn nodi sut y bydd yn cyflawni Nodau Cenhadaeth Economaidd 2021. Y pedwar maes â blaenoriaeth fydd galluogi'r canlynol:

- Pontio Cyfiawn a Ffyniant Gwyrdd. Gwireddu’r cyfleoedd Sero Net enfawr ledled Cymru, o’i hamgylchedd naturiol i gefnogi twf busnesau ac ymgysylltu â busnesau a phobl i symud tuag at bontio teg.

- Platfform i bobl ifanc, gwaith teg, sgiliau a llwyddiant. Cefnogi pobl ifanc i gael dyfodol uchelgeisiol yng Nghymru. Rhoi blaenoriaeth i'w sgiliau a'u creadigrwydd. Byddwn yn targedu adnoddau lle mae’r angen mwyaf, gyda chymorth ar gael ar gyfer y rhai sydd bellaf o’r farchnad lafar.

- Partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach a'r economi bob dydd. Gweithio gyda phob rhanbarth i gytuno ar gyfres lai o flaenoriaethau brys. Bydd y rhain yn cynnwys cydweithio i hybu'r achos dros benderfyniadau gan y DU sy'n denu llawer o fuddsoddiadau ac yn cefnogi swyddi teg sy'n cydnabod undebau llafur mewn meysydd fel Ynni Niwclear, Ynni Gwynt ar y Môr a Thechnoleg. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd o dan amodau anodd i baratoi ar gyfer y posibilrwydd o gronfeydd ôl-UE yn dychwelyd, ac yn cefnogi’r economi bob dydd i gadw rhagor o werth ac i drechu tlodi.

- Buddsoddi ar gyfer Twf. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ganolbwyntio ar ein cryfderau cymharol i hybu buddsoddi a thwf sy’n rhoi’r pwyslais mwyaf ar waith teg a’r tymor hir. Bydd ein Strategaeth Arloesi newydd yn seiliedig ar genhadaeth, a bydd yn targedu buddsoddiadau newydd mewn tirwedd economaidd ôl-UE, gan gefnogi masnacheiddio, ymchwil a datblygu ac entrepreneuriaeth ar draws busnesau.

## Datblygu'r Sail Dystiolaeth

116. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wrth iddi ddatblygu ei chynigion i drawsnewid ei dull o gynhyrchu ystadegau poblogaeth, ystadegau mudo ac ystadegau cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y SYG ar ddyfodol ystadegau am y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr[34] ac mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at Ystadegydd Gwladol y DU yn amlinellu'r gofynion defnyddiwr allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Disgwylir i Awdurdod

---

[34] Ymgynghoriad ar ddyfodol ystadegau ar y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Citizen Space

Ystadegau'r DU wneud argymhelliad yn 2024. Yna, bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar y camau nesaf yn seiliedig ar yr argymhelliad.

117. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn cytuno ar y camau nesaf ar gyfer rhaglen Dadansoddi Cyllid Cymru. Ers 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i gefnogi gwaith Dadansoddi Cyllid Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae Dadansoddi Cyllid Cymru wedi llunio nifer o adroddiadau ymchwil, wedi cynnal a chyflwyno mewn sawl digwyddiad, wedi ymddangos gerbron Pwyllgorau Senedd Cymru a Llywodraeth y DU ac wedi cyfrannu'n rheolaidd at adroddiadau ar y teledu ac mewn papurau newydd ar faterion cyllidol yng Nghymru[35]. Byddwn yn gweithio gydag academyddion a rhanddeiliaid eraill er mwyn cytuno ar y ffordd orau o adeiladu ar y gwaith hwn.

## 11. Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru

### Diben

118. Sefydlu saernïaeth hirdymor i Weinidogion Cymru a'r Senedd wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, gyda phwerau i wneud rheoliadau mewn ymateb i amgylchiadau allanol sy'n effeithio ar Ddeddfau Trethi Cymru.

### Cefndir

119. Pasiodd y Senedd Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 ym mis Gorffennaf 2022. Cafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2022. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r adnoddau cywir i Weinidogion Cymru ymateb i amgylchiadau allanol diffiniedig penodol a allai effeithio ar Ddeddfau Trethi Cymru.

120. Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio pwerau i wneud rheoliadau i ymdrin â digwyddiadau annisgwyl, megis dyfarniadau llys, elfennau amwys neu newidiadau mewn trethi a gedwir yn ôl cyfatebol sydd ar waith yn Lloegr, a allai gael effaith sylweddol ar rwymedigaethau unigolion ac ar ein refeniw. Ar yr un pryd, mae'n sicrhau bod gan Weinidogion Cymru ffordd hyblyg o ymateb i rôl y Senedd i graffu ar y rheoliadau hynny a'u cymeradwyo.

---

[35] Ceir cyhoeddiadau Dadansoddi Cyllid Cymru yn https://www.cardiff.ac.uk/cy/wales-governance-centre/publications/finance

## Canlyniad a'r camau nesaf

121. Gwnaed sawl gwelliant yn ystod Cyfnodau'r Bil. Yn bwysicaf oll, cyflwynwyd cymal machlud. Mae'n gymwys bum mlynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym (y diwrnod ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol). Felly, ni fydd yn bosibl gwneud rheoliadau newydd gan ddefnyddio'r pŵer a roddir gan y Ddeddf ar ôl 8 Medi 2027. Caiff Gweinidogion Cymru osod rheoliadau gerbron y Senedd a fydd yn ymestyn y cyfnod y gellir gwneud rheoliadau gan ddefnyddio'r pŵer yn y Ddeddf, hyd at 30 Ebrill 2031 (sef diwedd tymor y Seithfed Senedd).

122. At hynny, diwygiwyd y Ddeddf er mwyn cynnwys rhwymedigaeth i Weinidogion Cymru adolygu'r ffordd y rhoddir y Ddeddf ar waith a'i heffaith a chyhoeddi casgliadau'r adolygiad hwnnw. Mae'n rhaid cyhoeddi casgliadau'r adolygiad erbyn 8 Medi 2026. Rhaid i'r adolygiad hwnnw hefyd gynnwys asesiad gan Weinidogion Cymru o fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer newid Deddfau Trethi Cymru a rheoliadau a wneir o dan unrhyw un o'r Deddfau hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau cynllunio'r gwaith i gefnogi Gweinidogion Cymru gyda'u hadolygiad.

123. Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol eraill ac nid oes angen rhoi unrhyw beth ar waith yn sgil y ffaith bod y Ddeddf wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol. Diben y Ddeddf yw sicrhau ei bod yn bosibl gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru drwy reoliadau mewn ymateb i amgylchiadau allanol penodol. Nid yw'r pŵer a roddir gan y Ddeddf wedi'i ddefnydio gan Weinidogion Cymru eto.

# C. Ffocws parhaus ar weithio gyda phartneriaid a dinasyddion er mwyn i'n dull Cymreig o ymdrin â threthi ymwreiddio, a chodi ymwybyddiaeth o drethi Cymru

## 12. Rheoli trethi Cymru ar y cyd â'n partneriaid o fewn cyd-destun ehangach y DU ac yn rhyngwladol

### Diben

124. Sefydlu dull Cymreig o reoli trethi Cymru sy'n adlewyrchu'r sbectrwm llawn o gyfrifoldebau a gweithgareddau y mae gweinyddwyr trethi yn eu cyflawni/mynd i'r afael â nhw ar lefelau cenedlaethol a lleol, a chydnabod rhyngberthnasau o fewn system drethu'r DU.

### Cefndir

125. Yng Nghymru, mae pum treth ar waith y mae rhywfaint o gyfrifoldeb wedi'i ddatganoli mewn perthynas â hwy, a gesglir gan wahanol awdurdodau treth:

- Y ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn, sef y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, sy'n cael eu casglu a'u rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC.
- Treth incwm sydd wedi'i ddatganoli'n rhannol, sef CTIC, sy'n cael ei chasglu gan CThEF ar ran Llywodraeth Cymru.
- Y ddwy dreth leol, sef y dreth gyngor ac ardrethi annomestig, sy'n cael eu casglu a'u gwario gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

126. Er bod y gwahanol awdurdodau casglu trethi wedi datblygu mewn ffyrdd gwahanol, wedi'u cefnogi a'u llywio gan amrywiaeth o strwythurau, prosesau a gofynion gwahanol ac, felly, ffyrdd gwahanol o weithio, mae cyfle i ddatblygu dull strategol, cydlynol phenodol o ymdrin â'r ffordd y caiff trethi eu gweinyddu yng Nghymru.

### Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

127. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein partneriaeth bolisi ag Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Mae'r bartneriaeth bolisi yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth datblygu polisi trethi sy'n cyd-fynd â'r ffordd rydym yn mynd ati i gasglu ac yn rheoli trethi datganoledig yng Nghymru. Mae hon yn elfen allweddol o'r broses o ddatblygu'r Ffordd Gymreig o Drethu, gan sicrhau bod yr ystyriaethau o ran polisi

a gweithredu trethi yng Nghymru wedi'u hymgorffori yn y dull cynllunio a datblygu o'r cychwyn cyntaf. Yn ystod y flwyddyn hon, mae hyn wedi'i ddangos drwy waith ACC i ddeall sut mae darparwyr llety yn gweithredu ar hyn o bryd a llywio'r ffordd y byddai ardoll ymwelwyr yn gweithio yn ymarferol.

### Canlyniad a'r camau nesaf

128. Byddwn yn parhau i atgyfnerthu'r saernïaeth sy'n sail i'n trefniadau partneriaeth ag ACC. Drwy hyn a'n gweithgarwch ymgysylltu ar y cyd ag awdurdodau lleol, rydym yn awyddus i adeiladu ar ein hymdrechion i sefydlu'r Ffordd Gymreig o Drethu gan fanteisio ar y cryfderau a'r cyfleoedd sy'n bodoli i ddatblygu polisi trethi a rhoi trethi ar waith yng Nghymru.

## 13. Cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o drethi yng Nghymru drwy weithgareddau ymgysylltu ehangach

### Diben

129. Codi ymwybyddiaeth o drethi datganoledig, a'r gydberthynas rhyngddynt hwy ac ystyriaethau a phrosesau cyllidebol Llywodraeth Cymru a digwyddiadau polisi cyllidol Cymreig eraill.

### Cefndir

130. Rydym yn mabwysiadu dull cydgysylltiedig a strategol o gyfathrebu ac ymgysylltu, gan sicrhau bod gweithgareddau yn cyd-fynd ag amcanion Gweinidogion, y cytunir arnynt â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar ddechrau pob tymor o'r Senedd. Mae ymgysylltu a chydweithio â'n partneriaid a'u rhanddeiliaid allweddol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, yn arbennig o ystyried y sefyllfa ariannol anodd barhaus.

### Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

131. Rydym wedi parhau i ddatblygu gwaith i ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth o drethi datganoledig yng Nghymru a'n rôl ehangach o ran cefnogi buddiannau Cymru mewn materion sy'n ymwneud â threth.

132. Ar 9 Tachwedd gwnaethom gynnal ein cynhadledd dreth yng Nghaerdydd. Y digwyddiad blynyddol hwn oedd y cyntaf ers 2019 a gynhaliwyd fel digwyddiad wyneb yn wyneb. Dyma ein prif ddull o ymgysylltu â'r amrywiaeth eang o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn polisi trethi yng Nghymru. Roedd nifer o siaradwyr yn y digwyddiad a fu'n traethu ar amrywiaeth o bynciau yn ymwneud â

materion cyfredol a chynlluniau yn ymwneud â pholisi trethi yng Nghymru yn y dyfodol.

133. Unwaith eto eleni rydym wedi cynnwys cwestiynau yn un o Arolygon Omnibws Cymru, a gynhelir bob chwarter, er mwyn monitro lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd yng Nghymru o Gyfraddau Treth Incwm Cymru. Nododd y diweddariad mwyaf diweddar o Arolwg Omnibws Cymru a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2023 fod lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ffaith y gall Llywodraeth Cymru bennu cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru wedi cynyddu i 38% (o 32% y llynedd), sy'n newyddion da.

134. Gwnaethom barhau i gyhoeddi datganiadau ysgrifenedig er mwyn tynnu sylw at y ffaith bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth â CThEF sy'n sail i weithrediad CTIC ac adroddiad blynyddol CThEF ar weithrediad CTIC ac adolygiad blynyddol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o weithrediad CTIC wedi cael eu cyhoeddi.

135. Cyhoeddodd ACC ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf ar 14 Medi 2023.

136. Mae ystyriaethau o ran trethi datganoledig hefyd wedi cael sylw mewn gweithgarwch ymgysylltu ynghylch y broses gyllidebol ehangach gan gynnwys cyfarfodydd bord gron â rhanddeiliaid megis Awdurdodau Lleol, Comisiynwyr Statudol, sefydliadau yn y Trydydd Sector a Phartneriaid Cymdeithasol. Mae'r trafodaethau hyn wedi cynnig cyfle i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i drafod yr heriau o ran gwariant a'r ystyriaethau cysylltiedig o ran cyllid, wrth i weithio gyda'n gilydd i ymateb i'r cyd-destun presennol a mynd i'r afael â heriau tymor hwy.

137. Mae gwaith i ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn gwella llythrennedd cyllidebol gan gynnwys rôl trethi a gedwir yn ôl a threthi datganoledig hefyd wedi mynd rhagddo eleni. Mae aelodau o Fwrdd Ieuenctid Plant yng Nghymru wedi cyflwyno eu gwaith cychwynnol ar fersiwn pobl ifanc o Gynllun Gwella'r Gyllideb i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a Chadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn digwyddiad yn y Senedd ym mis Medi 2023. Caiff y cynnyrch terfynol ei lansio ar ddechrau 2024.

138. Mae gan Drysorlys Cymru ddwy sianel Twitter, sef @TrysorlysCymru ac @WelshTreasury, ac mae'n cyhoeddi cynnwys ar safbwynt y Gweinidog Cyllid ar faterion cyllidol, Cyllideb Cymru, Trethi Cymru, cydweithio â llywodraethau datganoledig eraill a datganiadau polisi a gwariant Llywodraeth Cymru. Mae nifer y dilynwyr wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf a bellach mae gan @TrysorlysCymru tua 8,300 o ddilynwyr ac mae gan @WelshTreasury tua 1,500 o ddilynwyr.

139. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio cynnal cydberthynas waith adeiladol â Llywodraeth y DU, yn arbennig CThEF a Thrysorlys Ei Fawrhydi, ac mae'n ymgysylltu â nhw yn rheolaidd er mwyn trafod amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â threthi a gedwir yn ôl. Ein nod yw deall cynlluniau trethiant Llywodraeth y DU a sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried. Yn erbyn cefndir argyfwng costau byw, rydym wedi tynnu sylw Llywodraeth y DU at unrhyw annhegwch neu anghysondeb canfyddedig yn y system dreth, er enghraifft mewn perthynas â budd-daliadau lles. Gwnaethom hefyd bwyso ar Lywodraeth y DU i gyflwyno Ardoll ar Elw Ynni er mwyn sicrhau bod yr elw sylweddol a wneir gan gwmnïau ynni yn cael eu trethu'n deg er mwyn helpu i gefnogi'r economi ehangach.

140. Rydym wedi sicrhau nad yw didyniadau treth yn gymwys i fentrau costau byw Llywodraeth Cymru y bwriedir iddynt helpu unigolion a theuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio gyda CThEF ar ddeddfwriaeth ddiweddar i esemptio taliadau prydau ysgol am ddim yng Nghymru. Heb yr esemptiad statudol newydd hwn rhag talu treth, byddai taliadau prydau ysgol am ddim i deuluoedd yn golygu didyniadau treth o 20% yn y ffynhonnell, gan danseilio bwriad y polisi i roi mwy o arian yn nwylo'r bobl sydd fwyaf agored i niwed. Rydym hefyd wedi sicrhau cytundeb CThEF i gyflwyno deddfwriaeth er mwyn esemptio taliadau a wneir o dan gynllun Twf Swyddi Cymru. Heb yr esemptiad statudol hwn, byddai taliadau o dan gynllun Twf Swyddi Cymru wedi bod yn drethadwy ar y gyfradd sylfaenol, gan leihau'r cymhelliant i bobl ifanc yng Nghymru ddysgu sgiliau newydd.

141. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda CThEF i roi system dreth bwrpasol ar waith ar gyfer cynllun peilot Incwm Sylfaenol i bobl sy'n gadael gofal, yn ogystal â methodoleg y cytunwyd arni er mwyn i dderbynwyr nad ydynt yn atebol i dalu treth gael ad-daliadau priodol. Mae'r cynllun peilot yn unigryw yn y DU ac roedd yn gofyn am system bwrpasol i gyfrif am ddidyniadau treth, yn ogystal â galluogi derbynwyr i hawlio ad-daliadau treth gan CThEF ar ddiwedd y flwyddyn dreth.

142. Drwy weithio gyda CThEF, rydym hefyd wedi sicrhau bod deddfwriaeth ynglŷn â TAW wedi'i diwygio er mwyn galluogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru i gael budd o'r un esemptiadau rhag TAW ag y mae Awdurdodau Cyfun yn Lloegr yn ei gael.

## Cyd-destun ardoll ymwelwyr

143. Mae ein gwaith ar ymwybyddiaeth ac ymgysylltu wedi canolbwyntio'n benodol ar y cynlluniau ar gyfer Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad cyhoeddus, a ddaeth i ben ar 13 Rhagfyr 2022, comisiynwyd ymchwil defnyddwyr bwrpasol er mwyn cael rhyw syniad o farn trigolion Cymru a defnyddwyr gwyliau domestig y DU. Cwblhaodd mwy na 2,500 o ymatebwyr yr

arolwg. Ar y cyfan, roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cefnogi egwyddor ardoll ymwelwyr[36].

144. Ym mis Gorffennaf 2023, cynhaliodd swyddogion weithdai ym mhob rhanbarth, er mwyn adolygu'r model llywodraethu a gweinyddu ardoll ymwelwyr, yn yr ysbryd parhaus o gydweithio a llunio polisi ar y cyd ag awdurdodau lleol.

145. At hynny, rydym wedi ymgysylltu â'r sector twristiaeth yn y gorffennol drwy Fforwm yr Economi Ymwelwyr. Ers hynny, mae gweithgarwch ymgysylltu wedi digwydd ar ôl ymgynghori drwy'r fforymau twristiaeth rhanbarthol rheolaidd a'r sioeau teithiol i'r diwydiant twristiaeth a drefnir gan Croeso Cymru.

146. Rydym yn cydweithio gyda chydweithwyr ac arbenigwyr academaidd er mwyn asesu'r effeithiau economaidd y gallai rhoi ardoll ymwelwyr ar waith yng Nghymru eu cael, yn ogystal ag effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ehangach.

**Canlyniad a'r camau nesaf**

147. Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Parhau i ddefnyddio digwyddiadau cyllidol allweddol, megis cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 19 Rhagfyr 2023, i godi ymwybyddiaeth o'r ffordd y caiff arian ei godi a'i wario yng Nghymru.

- Gweithio drwy'r adborth o'n cynhadledd dreth fwyaf diweddar er mwyn ystyried y gwaith cynllunio ar gyfer ein digwyddiad nesaf.

- Ystyried rhagor o gyfleoedd i weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru er mwyn ymgysylltu ar faterion treth a materion cyllidebol gan gynnwys lansio fersiwn pobl ifanc o Gynllun Gwella'r Gyllideb i yn 2024.

- Cynnal ein cydberthnasau allweddol â swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

[36] Ymchwil ardoll ymwelwyr: barn defnyddwyr a thrigolion | LLYW.CYMRU

## Atodiad 1: Talfyriadau

| | |
|---|---|
| ACC | Awdurdod Cyllid Cymru |
| CThEF | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi |
| CTIC | Cyfraddau Treth Incwm Cymru |
| LTTA | Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 |
| OECD | Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| SOL | Rhestr o Alwedigaethau lle ceir Prinder |
| SYG | Swyddfa Ystadegau Gwladol |

## Atodiad 2: Manylion cyswllt

Mae rhagor o wybodaeth am drethi Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

https://llyw.cymru/trethi-cymru

https://gov.wales/welsh-taxes

Gallwch gysylltu â ni:

drwy gyfrifon Twitter Trysorlys Cymru:

@TrysorlysCymru

@WelshTreasury

neu drwy anfon e-bost:

TrysorlysCymru@llyw.cymru

WelshTreasury@gov.wales